# RHAGOLWG

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd**

**Mercher 16 Tachwedd 2005]**

**Dydd Mawrth 22 Tachwedd a dydd Mercher 23 Tachwedd 2005**

**Dydd Mawrth 29 Tachwedd a dydd Mercher 30 Tachwedd 2005**

**Dydd Mawrth 6 Rhagfyr a dydd Mercher 7 Rhagfyr 2005**

**Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2005**

- **Cynnig i ethol Aelod(au) i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi (gan gynnwys cosbau a throseddau) Cyfarwyddeb 2005/63/EC dyddiedig 4 Hydref 2005. Mae Cyfarwyddeb 2005/63/EC yn gwneud mân newid i Gyfarwyddeb 2005/26/EC dyddiedig 21 Mawrth 2005, sy'n rhestru esemptiadau dros dro o'r gofynion i labelau alergenau yn achos cynhwysion penodol sy'n dod o fwydydd alergenig nad ydynt eu hunain yn alergenig. Mae Cyfarwyddeb 2005/63/EC yn gwneud mân newid i'r rhestr dros dro o esemptiadau, o dan 'Pysgod' ac mae'n ychwanegu'r term 'carotenoid' at y llinell: 'Fish gelatine used as a carrier for vitamin

or carotenoid preparations and flavours'. Grwp o fwy na 700 o gyfansoddion yw carotenoidau sy'n creu'r lliwiau coch, melyn ac oren sydd i'w cael mewn llawer o ffrwythau a llysiau.

- Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005

    Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn rhai darpariaethau penodol yn Neddf Tai 2004 o ran y System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai; Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMO); Trwyddedu HMO Ychwanegol; Trwyddedu Dethol ar gyfer Llety Preswyl Arall; Ymestyn Tenantiaethau Rhagarweiniol; Atal yr Hawl i Brynu ar Sail Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Defnyddio Gwybodaeth a Gafwyd at Ddibenion Statudol Eraill.

- Cynnig i drafod y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân (45 munud)

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005**

    Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau (ynghyd ag unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau) Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o ACCAC i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn gwneud darpariaethau canlyniadol, digwyddol, trosiannol ac atodol priodol; ac yn diddymu'r ACCAC.

- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor ) 2005

    Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau (ynghyd ag unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau) Cyngor Cenedlaethol Cymru Dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o ELWa i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn gwneud darpariaethau canlyniadol, digwyddol, trosiannol ac atodol priodol; ac yn diddymu ELWa.

- Cynnig i drafod y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân (45 munud)

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo**

**Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005**

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau (ynghyd ag unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau) Bwrdd Croeso Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o'r Bwrdd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn gwneud darpariaethau canlyniadol, digwyddol, trosiannol ac atodol priodol; ac yn diddymu Bwrdd Croeso Cymru.

- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau (ynghyd ag unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau) Awdurdod Datblygu Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o'r Awdurdod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn gwneud darpariaethau canlyniadol, digwyddol, trosiannol ac atodol priodol; ac yn diddymu Awdurdod Datblygu Cymru.

- **Dadl ar "Cynllun Oes - Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol" (60 munud)**

**Dydd Mercher 23 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol, lle maent yn ystyried bod cerbyd wedi'i adael a'i fod yn y fath gyflwr y dylid ei ddinistrio, i roi rhybudd o fwriad i symud y cerbyd 24 awr cyn ei symud yn hytrach na 7 diwrnod cyn ei symud fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, lle bydd awdurdod wedi symud ymaith cerbyd (ond nad yw yn y fath gyflwr y dylid ei ddinistrio) ac wedi dod o hyd i'r perchennog, y dylid gostwng y cyfnod y mae'n ofynnol i'r perchennog symud y cerbyd o ofal yr awdurdod o 21 diwrnod i 7 diwrnod o'r adeg y rhoddir y rhybudd perthnasol i'r perchennog.

- Cynnig i gymeradwyo’r Rheoliadau Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2005 (10 munud)

  Bydd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi’r darpariaethau yn Rheoliad (EC) Rhif. 882/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor (ar y rheolaethau swyddogol i sicrhau cydymffurfiaeth â’r deddfau bwyd a phorthiant, a’r rheolau lles ac iechyd anifeiliaid) fydd yn gymwys ar draws yr UE o 1 Ionawr 2006. Mae Rheoliad 882/2004 yn ymwneud â’r trefniadau yn y Gymuned ar gyfer gorfodi’r ddeddf bwyd a phorthiant a’r rheolau iechyd a lles anifeiliaid.

- **Dadl ar Gynnig ynghylch Rheol Sefydlog 31: Gwenda Thomas (Castell-nedd) (45 munud)**

  Mae'r cynnig hwn yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor is-ddeddfwriaeth i gychwyn Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau AALl a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant) yng Nghymru; ac yn cytuno y dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir dan Adran 175 (4) gynnwys materion fel enwebu llywodraethwr i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant a sefydlu cronfa ddata AALl o'r llywodraethwyr a enwebir.

- **Dadl ar y Drefn Cymorth Gwladwriaethol (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2005</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 Cychwyn (Cymru) (Rhif 3) 2005**

    Prif effaith y Gorchymyn hwn fydd cychwyn y darpariaethau hynny yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sydd eu hangen i roi fframwaith newydd ar waith i ddelio â chwynion yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

- The Education (Recognised Bodies) (Wales) Order 2005

This Order updates the lists of recognised bodies that may legitimately offer degree level courses. Parallel legislation is being made in England, Scotland and Northern Ireland to ensure the same information is available across the UK.

- The Fishery Products (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2005

These Regulations provide for the execution and enforcement by Local Food Authorities to recover a contribution towards the costs of carrying out hygiene inspection charges in respect of fish and fishery products caught in their natural environment and landed directly in Wales from:

- Member States;
- EEA States other than Member States;
- Greenland; and
- Third countries
- **The Bovine Products (Restriction on Placing on the Market) (No.2) (Wales) Regulations 2005**

The Bovine Products (Restriction on Placing on the Market) (No.2) (Wales) Regulations 2005 are being made to revoke and re-enact, with certain changes, the Bovine Products (Restriction on Placing on the Market) (Wales) Regulations 2005, which came into force on 7 November 2005.

- The National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment No2) **(Wales) Regulations 2005**

Local authorities are required by the National Assistance Act 1948 to charge residents for residential accommodation they provide, whether directly provided or arranged with an independent home. The aim of this is to recover as much as possible of the costs. The assessment of a person’s ability to pay for accommodation is laid down in the National Assistance (Assessment of Resources) Regulations 1992. These Regulations introduce a new disregard in the assessment of a person’s

ability to pay, which rules out, for charging purposes, two age-related payments being made from November 2005 by the Department for Work and Pensions (DWP), which are intended to benefit certain older people.

- The Adoption Information and Intermediary Services (Pre-Commencement

  **Adoptions) (Amendment) (Wales) Regulations 2005**

  The Adoption Information and Intermediary Services (Pre-Commencement Adoptions) (Wales) Regulations 2005 make provision for a scheme to assist persons, adopted before the day on which these Regulations come into force, to obtain information about their adoption and to make contact with their birth relatives. The Adoption Information and Intermediary Services (Pre-Commencement Adoptions) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 make minor amendments to correct references to the Principal Regulations.

- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005 (10 munud)

  Effaith y Rheoliadau hyn, ynghyd â'r rheoliadau cyfatebol ar wasanaethau i blant (Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005) a'r canllawiau perthnasol, fydd rhoi fframwaith yn ei le ar gyfer delio â chwynion yng ngwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005 (10 munud)

  Effaith y Rheoliadau hyn, ynghyd â'r rheoliadau cyfatebol ar wasanaethau i oedolion (Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005) a'r canllawiau perthnasol, fydd rhoi fframwaith yn ei le ar gyfer delio â chwynion yng ngwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005 (10 munud)

  Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n berthnasol i Gymru, yn gwneud diwygiadau i amryfal ddarpariaethau yn yr is-ddeddfwriaeth. Mae angen y diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Mae'r Ddeddf, sy'n dod i rym ar yr un dyddiad â'r Gorchymyn hwn, 5 Rhagfyr 2005, yn galluogi cyplau o'r un rhyw ffurfio partneriaeth sifil drwy gofrestru yn bartneriaid sifil i'w gilydd. Gall rhai perthnasau tramor a gofrestrwyd dramor hefyd gael eu hystyried yn barteriaethau sifil. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i bartneriaid sifil gael eu trin yn yr un modd â phobl briod o ran buddiannau a rhwymedigaethau.

  Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn yn diwygio'r darpariaethau mewn amryfal is-

ddeddfwriaeth i gymryd partneriaeth sifil i ystyriaeth – er enghraifft lle defnyddir ymadroddion fel "teulu", "perthynas" a "phriod".

- **Cynnig I gymeradwyo The Food Hygiene (Wales) Regulations 2005 (10 munud)**

  The Regulations will provide for the execution and enforcement of Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs; Regulation (EC) No. 853/2004 laying down specific hygiene rules for food of animal origin; and Regulation (EC) No. 854/2004 laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption, which apply directly across the EU from 1 January 2006.

- Cynnig I gymeradwyo The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (10 munud)

  Cross compliance is a set of environmental standards and conditions required by the European Commission that farmers have to meet in order to receive full payment under the Single Payment Scheme. Cross compliance comprises two elements:

- Compliance with Statutory Management Requirements (SMR) – a number of specific standards established in EU Directives and Regulations, phased in over 3 years (2005 to 2007). Most of the 19 SMRS relate to existing laws and address environmental, public and plant health, animal health and welfare and livestock identification and tracing objectives.
- Maintenance of land in accordance with the Good Agricultural and Environmental Condition (GAEC) - a framework established in EU Regulations.

  These Regulations amend the Common Agricultural Policy Single Payments and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2004 to introduce a derogation from the current hedge cutting, hedge laying and soil management assessment requirements under the Good Agricultural and Environmental Condition framework. All other amendments are administrative, designed to strengthen the current requirements.

- **Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gweithgor Gofal Plant (60 munud)**

**Dydd Mercher 30 Tachwedd 2005**

- **Cynnig i ethol Aelodau i’r pwyllgorau pwnc (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i'r Pwyllgor Ty (5 munud)**
- **Datganiad gan Jane Hutt: Iaith Arwyddion Prydain (30 munud)**
- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo’r Amserlen Gyfnodol (30 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2005**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**
- **Dadl a enwebwyd gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**
- **Dadl am Adolygiad Polisi gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (60 munud)**

**Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2005**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Motion to delegate functions under The Pollution Prevention and Control Act to the First Minister (10 munud)**

- Dadl ar Ddeintyddiaeth yn y GIG (60 munud)

- **Dadl ar Adolygiad Polisi gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Dawns yng Nghymru (60 munud)**

- **Y Ddadl Fer (30 munud)**